

Cyflwyniad i Cadair

Dod o hyd i'ch ffordd o gwmpas Cadair

Ail-ddefnyddio

Traethodau Ymchwil

Manylion cyswllt

Cadwrfeydd ledled y DU a gweddill y byd

Cyflwyniad i Cadair

Croeso i Cadair, cadwrfa Mynediad Agored Prifysgol Aberystwyth.

Mae Cadair yn darparu ymchwil gorau staff ac uwchraddedigion Prifysgol Aberystwyth ar-lein i'r cyhoedd, yn rhad ac am ddim. Mae hyn yn cynnwys metadata ynglŷn â chynnyrch ymchwil a, lle bo modd, atodiadau testun llawn y gellir eu lawrlwytho unrhyw bryd, unrhyw le, gan unrhyw un. Erthyglau i gyfnodolion wedi'u hadolygu gan gymheiriaid yw'r rhan fwyaf o'r eitemau testun llawn – gyda rhai ohonynt yn cael eu rhyddhau ar ôl cyfnod embargo'r cyhoeddwr - ond mae Cadair hefyd yn cynnwys papurau cynadleddau, papurau gwaith, rhai cronfeydd data, a thraethodau ymchwil.

Dod o hyd i'ch ffordd o gwmpas Cadair

Gallwch bori'r cynnwys yn ôl adran neu chwilio yn ôl teitl neu awdur drwy ddefnyddio'r blwch chwilio. Defnyddiwch y dewisiadau ar ochr dde'r dudalen i wneud chwiliad mwy manwl yn ôl awdur, pwnc a dyddiad.

Pan ddewch o hyd i eitem sydd o ddiddordeb i chi gallwch glicio ar y ddolen i [Ddangos cofnod llawn yr eitem](#) i weld gwybodaeth fanylach am yr eitem gan gynnwys crynodeb a manylion am yr embargo. I fynd yn ôl i'r cofnod syml cliciwch ar [Dangos cofnod syml yr eitem](#).

Os nad oes eitem i'w clicio o dan 'Ffeiliau yn yr eitem hon' a'ch bod yn gweld y neges: 'Nid oes ffeiliau yn gysylltiedig â'r eitem hon' nid yw'r awdur wedi atodi testun llawn.

Mewn rhai achosion bydd yna eitem y gallwch glicio arni ond nid ei hagar. Gall hyn fod oherwydd bod yr eitem dan embargo'r cyhoeddwr. Os byddwch yn sgorio i lawr cofnod llawn yr eitem, ac yn gweld maes ger y gwaelod yn nodi 'dc.rights.embargodate' y dyddiad canlynol yw'r dyddiad pryd y dylai'r eitem fod ar gael, ac os oes maes arall yn nodi 'dc.rights.embargoreason' bydd rheswm am yr embargo – yn aml mae hyn ar gyfer awduron traethodau ymchwil sydd am gyhoeddi rhannau o'u gwaith, er enghraifft.

Os oes botwm 'Gwneud cais am gopi' cliciwch arno a byddwn yn cysylltu â'r awdur i ofyn iddynt ddarparu copi i chi yn uniongyrchol. Os nad oes botwm 'Gwneud cais am gopi', neu os ydych yn teimlo na ddylai'r eitem fod dan embargo, cysylltwch â ni ar is@aber.ac.uk gan roi Cadair yn y testun.

Ail-ddefnyddio

Os ydych chi'n dymuno ail-ddefnyddio unrhyw ddeunydd, sicrhewch eich bod yn darllen ac yn dilyn y wybodaeth drwyddedu benodol ar gyfer yr eitem honno, neu cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth ar is@aber.ac.uk gan roi Cadair yn y testun.

Am ragor o wybodaeth ar hawlfraint a thrwyddedau ar gyfer deunydd Cadair gweler ein [hadran Cymorth Hawlfraint a Thrwyddedau](#)

Traethodau Ymchwil

Yn 2009, penderfynodd Prifysgol Aberystwyth ei gwneud yn ofynnol i adneuo traethodau estynedig uwchraddedig a thraethodau ymchwil, gydag embargos penodol ar gyfer ymchwil sensitif neu fasnachol. O 2013 ymlaen, mae hyn yn arbennig o berthnasol i draethodau ymchwil sy'n cael eu cywain gan wasanaeth [EThOS](#) y Llyfrgell Brydeinig er bod Cadair yn dal i dderbyn traethodau ymchwil Meistr gan uwchraddedigion a gychwynnodd eu rhaglenni cyn 2013.

I ddod o hyd i draethodau ymchwil Prifysgol Aberystwyth gallwch bori trwy gymuned [Cyhoeddiadau Uwchraddedig y sefydliad](#) a chymunedau'r adrannau unigol sy'n cynnwys is-gasgliadau ar gyfer traethodau ymchwil.

Pan ddewch o hyd i draethawd ymchwil sydd o ddiddordeb i chi gallwch glicio ar y ddolen i [Ddangos cofnod llawn yr eitem](#) i weld gwybodaeth fanylach am yr eitem, gan gynnwys crynodeb a manylion am yr embargo. I fynd yn ôl i'r cofnod syml cliciwch ar [Dangos cofnod syml yr eitem](#).

Os nad oes eitem i'w chlicio o dan 'Ffeiliau yn y system hon' a'ch bod yn gweld y neges: 'Nid oes ffeiliau'n gysylltiedig â'r eitem hon' nid yw'r awdur wedi atodi testun llawn.

Mewn rhai achosion, bydd eitem y gallwch glicio arni ond nid ei hagor. Gall hyn fod oherwydd bod yr eitem o dan embargo'r cyhoeddwr. Os oes botwm 'Gwneud cais am gopi' cliciwch arno a byddwn yn ceisio cysylltu â'r awdur i ofyn iddynt ddarparu copi i chi yn uniongyrchol. Os nad oes botwm 'Gwneud cais am gopi', neu os ydych yn teimlo na ddylai'r eitem fod o dan embargo, cysylltwch â ni ar is@aber.ac.uk gan roi Cadair yn y testun.

Manylion cyswllt

Gallwch gysylltu â Cadair drwy:

e-bostio is@aber.ac.uk gan roi Cadair yn y testun

Neu:

ffonio 01970622400 a gofyn i siarad ag aelod o staff ynglŷn â Cadair.

Ymchwilio yn Aberystwyth?

Ymchwilwyr Aberystwyth sydd am i'w cynnyrch fod ar gael drwy Cadair

- cyflwynwch eich ymchwil drwy system rheoli ymchwil [PURE](#)

Myfyrwyr uwchraddedig sy'n barod i gyflwyno'r copi terfynol o'u traethawd ymchwil

- yn Cadair, edrychwch ar ein [hadran Cymorth](#) ar Draethodau Ymchwil neu dilynwch y canllawiau a ddarperir yn y [gymuned Cyhoeddiadau Uwchraddedig](#).

Ymholiadau? Anfonwch e-bost at: is@aber.ac.uk gan roi Cadair yn y testun

Cadwrfeydd ledled y DU a gweddill y byd

Mae gan y rhan fwyaf o brifysgolion y DU Gadwrfa Sefydliadol, ac mae hyn yn wir am lawer o brifysgolion ar draws y byd. Mae [OpenDOAR](#) yn cynnig cofrestr o dros 2600 o gadwrfeydd ledled y byd ac adnodd i chwilio cynnwys y cadwrfeydd.

Mae'r wefan [ROARMAP](#) yn rhestru gofynion adneuo o bob cwr o'r byd, ac mae modd gwneud chwiliadau yn ôl gwlad.

Am ragor o wybodaeth am gadwrfeydd ac ymchwil Mynediad Agored, gweler yr [adran Cymorth](#) Mynediad Agored